Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron ac o bell Ddydd Gwener, 15 Mawrth 2024

Presennol: Y Cynghorydd Catrin M S. Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Chris James (Is-gadeirydd), Gwyn Wigley Evans, Gareth Lloyd a John Roberts.

Swyddogion yn bresennol: Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Dysgu Gydol Oes a Diwylliant; Non Davies, Rheolwr Corfforaethol- Diwylliant; Carys Lloyd-Jones, Swyddog Polisi Iaith; Dwynwen Lloyd Llywelyn, Pennaeth Theatr Felinfach a'r Campws; Steffan Rees, Arweinydd Tîm Cered; Mari Hopkins, Cynorthwyydd Ymchwil a Pherfformiad a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am- 11.53am)

1 Ymddiheuriadau

i. Ymddiheurodd y Cynghorydd Rhodri Davies am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd Chris James am y byddai'n hwyr yn ymuno â'r cyfarfod.
iii. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Carys Lloyd-Jones a dymunodd yn dda iddi yn ei rôl newydd yn Swyddog Polisi Iaith y Cyngor.

2 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol/ buddiannau sy'n rhagfarnu.

3 Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd ar 25 Mai 2023

CADARNHAWYD bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 25 Mai 2023 yn gywir.

4 Materion yn codi o'r cofnodion

Rhoddodd y Cadeirydd y diweddaraf ar y cynnydd parthed eitem agenda rhif 5:

- Diolchwyd i aelodau'r staff am eu hymdrechion i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a chafodd pawb eu hannog i barhau â'r cynnydd hwn
- Datblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar gyfer y cyfnod 5 myned nesaf, yn unol â Safon 145/146- *gwaith yn parhau*
- Adolygu Canllaw Asesu Effaith Integredig, er mwyn helpu swyddogion i nodi unrhyw effaith ar y Gymraeg wrth gyflwyno penderfyniadau polisi- *wedi'i gwblhau*
- Datblygu prosiect 'Croeso Ceredigion' mewn ymgais i geisio cymhathu mewnfudwyr; y gwaith yn deillio o Fforwm Dyfodol Dwyieithog- *gwaith yn parhau*
- Datblygu canllaw ar ddefnydd y Gymraeg ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned- *i'w ystyried yn y dyfodol*
- Adnewyddu tudalennau 'Iaith ar Waith' ar fewnrwyd y Cyngor, cynnwys canllawiau a datblygu deunydd cymorth atodol sydd ei angen i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg- *gwaith yn parhau*

- Prosiect hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliant a Chymreictod mewn cartrefi preswyl- *i'w ystyried yn y dyfodol*

Cafwyd eglurhad o ran nad yw Helo Blod Lleol ar gael mwyach, ond bod y fersiwn genedlaethol yn dal i weithredu.

5 Diweddariad ar Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024-2029

Eglurodd y Swyddog Polisi Iaith fod Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi sefydlu fframwaith cyfreithiol i orfodi dyletswyddau ar sefydliadau penodol, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Roedd Safon 145 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor Sir i ddatblygu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd oedd esbonio sut roedd Cyngor yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso defnydd y Gymraeg o fewn yr ardal ehangach, a hynny drwy gyd-weithio gydag aelodau o Fforwm Iaith Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. Fel rhan o'r Strategaeth, roedd yn ofynnol i osod targed ar gyfer cynnal neu gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd dan sylw. Roedd y Strategaeth yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru, i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Rhoddwyd diweddariad ar Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Ceredigion 2024-2029. Nodwyd bod Carys Morgan, y Swyddog Polisi Iaith blaenorol, wedi gwneud llawer o'r gwaith. Roedd y Strategaeth honno yn y broses o gael ei mireinio er mwyn gallu cyflwyno'r Drafft cyntaf i'r Pwyllgor Iaith ar 25 Mehefin 2024.

Pennwyd y nod canlynol yn nrafft cychwynnol y Strategaeth newydd:
"Cynyddu defnydd o'r iaith ym mhob agwedd o fywyd y Sir. Ein gweledigaeth yw y bydd y Gymraeg a Chymreictod yn perthyn i bob un yng Ngheredigion ac yn destun balchder ymysg holl drigolion y sir."

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth gosodwyd 4 thema strategol – mae Ceredigion yn fan lle mae modd **dysgu, byw, perthyn a llwyddo** drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd cynllun gweithredu oedd yn gysylltiedig â phob un o'r 4 thema yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r gwaith. Yn dilyn cyflwyno'r ddogfen ddrafft i'r Pwyllgor Iaith ym mis Mehefin, bydd y ddogfen yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet cyn agor cyfnod o ymgynghori cyhoeddus yn ystod Gorffennaf ac Awst 2024. Y bwriad oedd cyhoeddi'r Strategaeth derfynol ym mis Rhagfyr 2024.

Codwyd y prif bwyntiau canlynol yn ystod y trafodaethau:

- Er mai bach yw'r cynnydd a fwriedir o 267 (1%) o siaradwyr Cymraeg rhwng 2021 a 2029, roedd yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad. Roedd gosod targed yn allweddol er mwyn sicrhau bod nod i weithio tuag ato. Roedd pryderon ynghylch cywirdeb canlyniadau Cyfrifiad 2021 a ph'un a oedd yn ddarlun cywir o boblogaeth y sir.
- Ni fyddai toriadau cyllidebol 2024/25 yn cael effaith uniongyrchol ar y Swyddog Polisi Iaith gan nad oedd cyllideb ynghlwm wrth y gwaith. Roedd y gyllideb ar gyfer cyfieithwyr allanol wedi'i chwtogi felly anogir

Swyddogion i ysgrifennu'n fwy cryno i leihau llwyth gwaith y gwasanaeth cyfieithu.

CYTUNWYD i gymeradwyo bod y ddogfen ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet cyn agor cyfnod o ymgynghori cyhoeddus yn ystod Gorffennaf ac Awst 2024.

6 Diweddariad ar ganlyniadau'r laith Gymraeg - Cyfrifiad 2021

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r canlynol:

- Cyflwyniad
- Y darlun ar draws Cymru
- Siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion 1981- 2021
- Ceredigion- Siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran a Ward Etholiadol
- Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
- Casgliad

Codwyd y prif bwyntiau canlynol yn ystod y trafodaethau:

- Holwyd ynghylch y sampl a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a wnaed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol; cytunodd y Swyddog i rannu'r wybodaeth hon gyda'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.
- Amlygwyd bod Ceredigion ynghyd â siroedd eraill yng Nghymru wedi colli llawer o siaradwyr Cymraeg ifanc i Gaerdydd, felly nid oedd y data a oedd yn awgrymu mai Caerdydd oedd â'r cynnydd mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn rhoi darlun cwbl gywir.
- Roedd y cynnydd o 0.5 pwynt canran yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 16 a 64 mlwydd oed rhwng 2011 a 2021 yn beth cadarnhaol. Gyda chyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, gobeithio y byddai cynnydd yn y dyfodol yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng tair a phymtheg oed. Ystyriwyd bod y Cynllun yn gam sylweddol ymlaen ac roedd yna ymrwymiad gwleidyddol i fwrw ymlaen â hyn mewn pedair ysgol gynradd (Plascrug, Llwyn-yr-Eos, Padarn Sant a Chomins Coch), ac Ysgol Gynradd Ceinewydd hefyd os byddai'r Cabinet yn cymeradwyo ar 19.03.24. Rhoddir cymorth i'r staff wella'u Cymraeg lle bo angen.
- Mynegwyd pryderon y gallai geiriad cwestiynau am y Gymraeg gael dylanwad ar ganlyniadau arolygon am fod pobl, gan gynnwys dysgwyr, ddim wastad yn hyderus pan ddaw hi i hunanasesu.
- Gan fod rhieni/gwarcheidwaid wedi cwblhau'r Cyfrifiad ar ran plant/pobl ifanc o dan 16 oed, efallai nad oedd y canlyniadau ar gyfer y Gymraeg yn y categori oedran hwn yn 2021 wedi dal y sefyllfa yn llwyr. Gan fod ysgolion ar gau am gyfnodau yn ystod pandemig COVID-19 efallai fod rhieni/gwarcheidwaid wedi teimlo nad oedd plant/pobl ifanc, yn enwedig y rheiny o deuluoedd di-Gymraeg, mor hyderus yn y Gymraeg ag yr oeddent ynghynt pan oeddent yn mynychu'r ysgol bob dydd.
- Canmolwyd rhieni/gwarcheidwaid di-Gymraeg a oedd yn dewis anfon eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg, ac roedd yn allweddol darparu cymorth i'r teuluoedd hyn.

CYTUNWYD i nodi'r wybodaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i Mari Hopkins am ddod i'r cyfarfod ac am roi cyflwyniad cynhwysfawr i'r Pwyllgor.

7 Adroddiad Blynyddol Theatr Felinfach 2023-2024

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol Theatr Felinfach ar gyfer 2023-24. Roedd Theatr Felinfach yn cynnal a datblygu miloedd o gyfleoedd celfyddydol mewn blwyddyn. Defnyddiwyd dulliau addysg anffurfiol a disgyblaethau drama, dawns, ffilm a theatr dechnegol a datblygwyd cyfleoedd a phrofiadau oedd yn hybu creadigrwydd, sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant a chelfyddyd Cymru a'r byd.

Er ein bod wedi symud ymlaen bedair blynedd ers dechrau'r pandemig, COVID-19, roedd effaith y cyfnodau clo dal yn amlwg mewn nifer o feysydd, gan gynnwys y celfyddydau. Roedd Tîm Artistig Theatr Felinfach wedi gweld, ers 2022 effaith y pandemig ar unigolion a grwpiau o gyfranogwyr. Ymhlith plant a phobl ifanc, gwelwyd bod diffyg hyder yn amlwg mewn nifer, gwelwyd hefyd bod y diffyg profiad o weithio mewn grŵp, wyneb yn wyneb wedi cael effaith ar gyfranogwyr hefyd. Roedd cyfranogi mewn disgyblaethau theatr a chelfyddydau yn datblygu hyder personol, hyder corfforol i symud mewn gofod/llwyfan, hyder i ddefnyddio llais ac i gyfrannu syniadau – o brofiad y Theatr, roedd gwaith i'w wneud gyda phartneriaid, ysgolion a mudiadau, i adfer ac adeiladu'r hyder hynny. Er yr heriau, roedd wedi bod yn gyfnod cyffrous wrth i'r galw am waith cyfranogi gynyddu yn gyffredinol. Rhoddwyd trosolwg o uchafbwyntiau 2023-24 fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Ers ysgrifennu'r adroddiad, cafodd Theatr Felinfach gadarnhad eu bod nhw wedi llwyddo i gael cyllid – yn dilyn cais i gronfa Llwyddo'n Lleol- Arfor – i gynnig profiad gwaith ar leoliad. Dyma gyfle pwrpasol i unigolyn gael profiad o wahanol elfennau cynyrchiadau creadigol.

Cyfeiriwyd at y lleihad yng nghyllid Cyngor Celfyddydau Cymru o 2.5% i bob grant, yn dilyn adolygiad, a hefyd at Ddatblygu Adnoddau Theatr Felinfach a Staffio, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Codwyd y prif bwyntiau canlynol yn ystod y trafodaethau:

- Gwnaeth yr Aelodau ganmol pawb yn Theatr Felinfach am eu hymroddiad a'u llwyddiant wrth arwain ar y celfyddydau creadigol, ac roedd yn braf gweld rhaglen lawn o ddigwyddiadau unwaith eto yn dilyn pandemig COVID-19.
- Er bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi lleihau cyllid grantiau, nid oedd yr effaith ar Theatr Felinfach mor fawr ag yr ydoedd i eraill yn y portffolio.
- Yn dilyn cyfarfod ar 05/03/24 gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, y bwriad oedd cyflwyno adroddiad a chynllun i wella adnoddau'r Theatr.

CYTUNWYD i dderbyn yr adroddiad fel cofnod o weithgaredd Theatr Felinfach a'i nod o hybu'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant drwy raglenni cyfranogi celfyddydol.

8 Adroddiad Blynyddol Cered – Menter Iaith Ceredigion

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r canlynol:

- Nod Cered
- Cyfraniad Strategol
- Cyllid
- Strwythur a Staffio
- Partneriaid
- Targedau 2024-25
- Themâu ac Uchafbwyntiau (Plant, Pobl Ifanc, Y Gymuned, Dysgwyr a Seilwaith)
- Crynodeb

Tynnwyd sylw at y ffaith fod cymryd rhan yn Ras yr Iaith yn drwm ar adnoddau a bod rhan fawr o gyllideb Cered yn mynd tuag at ei chefnogi. Codwyd hyn gyda Llywodraeth Cymru ac er ei bod eisiau i awdurdodau lleol ei chefnogi, dywedodd Aled Richards yn ddiweddar bod hynny'n ddewisol i bob awdurdod lleol. Gan nad oedd Ras yr Iaith yn dathlu unrhyw beth yn benodol ac nad oedd dyddiad penodol iddi, ystyrir yn ofalus p'un ai i gymryd rhan yn y digwyddiad nesaf oherwydd roedd hi'n hanfodol fod cyllid yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

CYTUNWYD i dderbyn yr adroddiad blynyddol fel cofnod o waith Cered yn ystod y cyfnod dan sylw ac yn nodi gwaith y Fenter wrth hyrwyddo a datblygu defnydd y Gymraeg yng Ngheredigion.

9 Hybu hyder a hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn y gweithle

Esboniodd y Swyddog Polisi Iaith mai un o'i dyletswyddau oedd trefnu gweithgareddau er mwyn hybu a hyrwyddo arloesedd a gwelliant parhaus fel safbwynt o gynyddu'r Gymraeg yn y gweithle. Gall gynnwys gweithgareddau arferol i godi hyder cydweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Ym mis Ionawr creuwyd cylchlythyr electronig i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen ac agorwyd y linc 352 o weithiau.

Yn dilyn trafodaeth gyda Steffan Rees, Arweinydd Tîm Cered a Huw Owen, Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith, datblygwyd cylchlythyr electronig misol o'r enw **GWENA 'Mae'n ddydd Gwener'**. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar CERINET yn unig ar ddydd cyntaf bob mis, gyda'r cylchlythyr cyntaf wedi'i gyhoeddi ar 1 Mawrth 2024. Bydd y cylchlythyr gobeithio yn ffordd o hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gweithle ac yn fodd i'r gweithwyr oedd yn Dysgu Cymraeg gyda Huw ymarfer ei sgiliau gwrando, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Bydd adolygiad o'r cylchlythyr o fewn 4/5 mis drwy holiadur byr.

Prif nod y cylchlythyr oedd hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod mewn amrywiaeth o ffyrdd drwy hybu gweithgareddau CERED – gigs/digwyddiadau amrywiol a.y.y.b gan sicrhau linc rhwng y tiwtor, y dysgwyr, siaradwyr llai hyderus, Cymry Cymraeg gweithle Cyngor Sir Ceredigion, CERED a'r Swyddog Polisi Iaith.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn gobeithio y byddai'r fideos ar sut i ynganu geiriau Cymraeg o fudd i bawb. Anogwyd yr aelodau i gymryd sylw o'r cylchlythyr electronig.

CYTUNWYD i nodi'r adroddiad ac i barhau i ddatblygu ac esblygu hwn gan werthuso'r adnodd mewn 4 i 5 mis.

10 Blaenraglen Waith

Awgrymwyd yr eitemau canlynol gan Aelodau'r Pwyllgor:

- Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Drafft 2024-2029 (Mehefin 2024)
- Cyflwyniad ar Fframwaith ALTE + Cymraeg yn y gweithle (Mehefin 2024)
- Adroddiad ar gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol Ceredigion (Tachwedd 2024)
- Diweddariad Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd (Tachwedd 2024)
- Diweddariad ar Hybu hyder a hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn y gweithle (Tachwedd 2024)

11 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor

- Eglurodd y Cadeirydd ei bod wedi derbyn e-bost gan y Cynghorydd Keith Evans ym mis Awst 2023 i dynnu sylw at y ffaith nad oedd opsiwn i nodi eich bod yn ddinesydd 'Cymreig' wrth wneud cais i bleidleisio mewn etholiadau, dim ond opsiwn dinesydd 'Prydeinig' neu 'Arall'. Deallwyd bod y ffurflenni wedi'u creu gan y Comisiwn Etholiadol. Cytunwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei godi gyda'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd er mwyn cael ymateb ffurfiol.

  Ychwanegodd y Cadeirydd bod y Cynghorydd Keith Evans wedi mynegi pryder hefyd ei bod hi'n anodd nodi cyfeiriadau Cymraeg gyda'r Post Brenhinol gan arwain at anhawster wrth ddefnyddio cyfeiriadau ar-lein. Gan fod hyn yn cael ei ystyried yn fater cenedlaethol, cytunodd y Swyddog Polisi Iaith i gyfeirio'r mater hwn i Gomisiynydd y Gymraeg.

- Holodd y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans a oedd digon o gymorth yn cael ei ddarparu i aelodau staff yr awdurdod lleol er mwyn iddynt ddysgu Cymraeg, a sut y gellid eu hannog i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.

  Awgrymodd y Cadeirydd y gellid ystyried y mater hwn yn y cyfarfod nesaf ac y gellid gofyn i'r swyddogion perthnasol roi diweddariad ar y sefyllfa.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2024

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____